# Adroddiad perfformiad amgylcheddol blynyddol ar gyfer Dŵr Cymru 2024

## Cyflwyniad

Ein diben yw sicrhau rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol yn ein holl waith. Mae hyn yn golygu gofalu am aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion, a phridd Cymru i wella llesiant a sicrhau dyfodol gwell i bawb.

Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym yn monitro perfformiad amgylcheddol cwmnïau dŵr i helpu i leihau effaith eu gweithrediadau ar yr amgylchedd naturiol. Mae hyn yn cynnwys olrhain digwyddiadau llygredd, asesu cydymffurfedd â hawlenni a thrwyddedau, a goruchwylio cyflawniad cynlluniau gwella.

Yn ein rôl fel y rheoleiddiwr amgylcheddol, rydym yn gyfrifol am ddwyn cwmnïau dŵr i gyfrif o ran cyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol a'u cyfrifoldebau amgylcheddol. Mae hyn yn cynnwys gwirio cydymffurfedd a'u goruchwylio i weld a ydynt yn cyflawni dyletswyddau statudol o dan ddeddfwriaeth berthnasol.

Rydym yn rheoleiddio gweithrediadau Dŵr Cymru yng Nghymru, tra bod Asiantaeth yr Amgylchedd yn rheoleiddio gweithgareddau'r cwmni yn Lloegr. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu perfformiad cyfunol Dŵr Cymru ar draws y ddwy wlad, oni nodir yn wahanol. Mae perfformiad Hafren Dyfrdwy hefyd ar gael ar ein gwefan.

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth fanylach yn ymwneud â Dŵr Cymru yn yr Adroddiad Digwyddiad Llygredd a'r Adroddiadau data gollyngiadau gorlifoedd stormydd a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2025.

# Cynnwys

Mae dwy ran i'r adroddiad blynyddol hwn. Yn gyntaf, rydym yn asesu perfformiad Dŵr Cymru yn erbyn y saith metrig Asesiad Perfformiad Amgylcheddol a ddefnyddir ledled Cymru a Lloegr. Mae hyn yn galluogi cymhariaeth gyson o'r 10 cwmni dŵr a charthffosiaeth mwyaf. Yn ail, rydym yn adolygu meysydd amgylcheddol allweddol eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol. Nid yw'r adroddiad yn cwmpasu pob agwedd ar reoleiddio cwmnïau dŵr.

# Cynnwys

**Rhan 1: Asesiad Perfformiad Amgylcheddol 2024 Dŵr Cymru .... 3**
**Prif negeseuon ar berfformiad .... 4**
Gwybodaeth gyfeirnodi ar yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol .... 4
Digwyddiadau llygredd .... 5
Metrig 1 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Cyfanswm digwyddiadau llygredd (carthffosiaeth) .... 5
Metrig 2 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Digwyddiadau llygredd difrifol (Categori 1 a 2 o asedau carthffosiaeth a chyflenwad dŵr) .... 6
Metrig 3 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Digwyddiadau hunan-adrodd .... 7
Cydymffurfio â'r drwydded gollwng dŵr .... 8
Metrig 4 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Cydymffurfio â thrwyddedau gollwng 9
Metrig 5 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Metrig defnyddio a gwaredu slwtsh mewn ffordd foddhaol .... 10
Metrig 6 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Cyflawni Cynllun Rheoli Asedau'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol .... 11
Metrig 7 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Y Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw .... 12
**Rhan 2: Perfformiad amgylcheddol ehangach Dŵr Cymru .... 13**
Digwyddiadau o asedau cyflenwi dŵr .... 13
Cydymffurfio ag amodau disgrifiadol trwyddedau ar ansawdd dŵr .... 14
Cydymffurfio ag amodau llif mewn gweithfeydd trin dŵr gwastraff .... 15
Gorlifoedd storm a ganiateir – Cymru yn unig .... 16
Adnoddau dŵr .... 19
Digwyddiadau o weithgareddau adnoddau dŵr .... 19
Cydymffurfio â thrwyddedau adnoddau dŵr .... 19
Cynlluniau sychder a chynlluniau rheoli adnoddau dŵr .... 20
Gollyngiadau a'r defnydd o ddŵr .... 20
Cydymffurfio â thrwyddedau gwastraff .... 21
Gorfodi .... 21
Diogelwch cronfeydd dŵr .... 22
Asesiad monitro gweithredwyr .... 23
**Disgwyliadau perfformiad ar gyfer 2025 .... 25**
**Atodiad 1: Methodoleg asesu perfformiad .... 27**
**Atodiad 2: Crynodeb o berfformiad 2015–2024 Dŵr Cymru .... 28**

# Rhan 1: Asesiad Perfformiad Amgylcheddol 2024 Dŵr Cymru

Caiff metrigau a thargedau'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol eu hadolygu bob pum mlynedd i sbarduno gwelliant parhaus. Mae'r adroddiad hwn ar gyfer 2024 yn nodi'r bedwaredd flwyddyn o asesu Dŵr Cymru yn erbyn metrigau 2021–2025. Rydym yn parhau i ddwyn Dŵr Cymru i gyfrif o ran ei ddyletswyddau statudol, gan annog ymyriadau wedi'u targedu i wella perfformiad yn erbyn yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol a deilliannau amgylcheddol ehangach.

Yn 2024, cyflawnodd Dŵr Cymru statws gwyrdd ar gyfer dau fetrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol, oren ar gyfer pedwar, a choch ar gyfer un. Arweiniodd hyn at sgôr gyffredinol o ddwy seren i'r cwmni, sy'n dangos bod angen i'r cwmni gwella. Mae'n siomedig bod Dŵr Cymru wedi parhau i gael sgôr o ddwy seren am dair blynedd yn olynol.

Crynodeb o berfformiad Dŵr Cymru:

| Metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol | Canlyniad 2024 | O'i gymharu â pherfformiad y blynyddoedd blaenorol |
|---|---|---|
| Metrig 1:Cyfanswm digwyddiadau llygredd (carthffosiaeth) | **36** (Oren) | Wedi parhau yn oren |
| Metrig 2:Digwyddiadau llygredd difrifol (asedau carthffosiaeth a chyflenwad dŵr) | **6** (Coch) | Wedi parhau yn goch |
| Metrig 3:Hunan-gofnodi digwyddiadau llygredd (asedau carthffosiaeth a chyflenwad dŵr) | **74%** (Oren) | Wedi parhau yn oren |
| Metrig 4:Cydymffurfio â thrwydded ollwng (rhifol) | **98.7%** (Oren) | Wedi newid i oren |
| Metrig 5: Defnyddio a gwaredu slwtsh mewn ffordd foddhaol | **100%** (Gwyrdd) | Wedi parhau yn wyrdd |
| Metrig 6: Cyflawni Cynllun Rheoli Asedau'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol | **100%** (Gwyrdd) | Wedi parhau yn wyrdd |
| Metrig 7:Y Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw | **99** (Oren) | Wedi parhau yn oren |
| Sgôr seren gyffredinol y cwmni | **Dwy seren** | Wedi parhau â dwy seren am dair blynedd yn olynol |

Allwedd: Statws metrig

| | |
|---|---|
| Gwyrdd | Perfformiad yn well na'r targed |
| Oren | Perfformiad islaw'r targed |
| Coch | Perfformiad ymhell o dan y targed |

Allwedd: Sgôr seren gyffredinol y cwmni

| | |
|---|---|
| Pedair seren | Cwmni sy'n arwain y diwydiant |
| Tair seren | Cwmni da |
| Dwy seren | Cwmni y mae angen ei wella |
| Un seren | Cwmni sy'n perfformio'n wael |

# Prif negeseuon ar berfformiad

Fel y crynhoir ar dudalen 2, roedd perfformiad Dŵr Cymru yn 2024 yn cynnwys un metrig yn sylweddol islaw’r targed, pedwar yn agos at y targed neu islaw’r targed, a dau yn rhagori ar y targed:

- **Metrig 1 Digwyddiadau llygredd yn ymwneud â charthffosiaeth (Categori 1–3):** Cynyddodd nifer y digwyddiadau ymhellach yn 2024, gan barhau â thuedd sy’n dangos dirywiad. Roedd y metrig wedi parhau yn oren.
- **Metrig 2 Digwyddiadau llygredd difrifol:** Cofnodwyd chwe digwyddiad (un yn llai nag yn 2023), ond parhaodd y metrig yn goch.
- **Metrig 3 Hunan-adrodd am ddigwyddiadau llygredd:** Wedi gwella 4% o gymharu â 2023, ond yn dal yn oren.
- **Metrig 4 Cydymffurfedd â thrwyddedau ansawdd dŵr rhifol:** Wedi gwella 0.7%, gan newid i oren.
- **Metrig 5 Defnyddio a gwaredu slwtsh mewn ffordd foddhaol:** Wedi dychwelyd i 100%, gan gynnal statws gwyrdd.
- **Metrig 6 Cyflawni cynlluniau’r Cynllun Rheoli Asedau:** Wedi’i gyflawni 100%, yn parhau yn wyrdd.
- **Metrig 7 Y Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw:** Sgôr o 99, gan barhau yn oren am ail flwyddyn.

Mae’n hynod siomedig bod Dŵr Cymru yn parhau i fod â statws coch ar gyfer digwyddiadau llygredd difrifol. Mae’r nifer cynyddol o ddigwyddiadau llygredd yn ymwneud â charthffosiaeth hefyd yn destun pryder, gyda 2024 yn nodi’r perfformiad gwaethaf hyd yn hyn. Mae’r dirywiad mewn perfformiad mewn perthynas â llygredd yn adlewyrchu dirywiad go iawn ac ni ellir ei briodoli i dynhau trothwyon yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol a gyflwynwyd yn 2021.

Mae rhagor o wybodaeth am y saith metrig yn dilyn.

## Gwybodaeth gyfeirnodi ar yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol

Am fanylion ynghylch methodoleg yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol a chrynodeb o berfformiad mewn blynyddoedd blaenorol, cyfeiriwch at yr atodiadau:

- Atodiad 1 sydd yn esbonio’r fethodoleg yr ydym yn ei defnyddio i asesu perfformiad y cwmni
- Atodiad 2 sydd yn dangos sut y mae Dŵr Cymru wedi perfformio yn erbyn metrigau’r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol ers 2015

# Digwyddiadau llygredd

Fel y rheoleiddiwr amgylcheddol, rydym yn ymateb i ystod eang o ddigwyddiadau llygredd, ac y mae rhai ohonynt yn deillio o asedau a rhwydweithiau cwmnïau dŵr. Rydym yn adrodd ar nifer y digwyddiadau a briodolir i bob cwmni dŵr er mwyn hyrwyddo tryloywder ac ysgogi gwelliant parhaus. Ein nod yw sicrhau gostyngiad parhaus mewn digwyddiadau llygredd, gyda'r uchelgais reoleiddiol y dylid dileu'r rhain yn llwyr. Rydym yn disgwyl i gwmnïau dŵr atal pob digwyddiad difrifol (Categori 1–2).

Rydym yn defnyddio pedwar categori i asesu effaith digwyddiadau llygredd:

- **Categori 1 – Sylweddol:** Effaith andwyol neu ddifrod sylweddol, difrifol, parhaus a/neu eang ar yr amgylchedd, pobl neu eiddo, neu ar asedau, gwaith neu enw da CNC.

- **Categori 2 – Arwyddocaol:** Effaith andwyol neu ddifrod arwyddocaol ar yr amgylchedd, pobl neu eiddo, neu ar asedau, gwaith neu enw da CNC.

- **Categori 3 – Bach:** Ychydig iawn o effaith andwyol neu ddifrod ar yr amgylchedd, pobl neu eiddo, neu ar asedau, gwaith neu enw da CNC.


- **Categori 4 – Dim effaith:** Digwyddiad nad oedd yn effeithio o gwbl ar yr amgylchedd neu'r sefydliad.

## Metrig 1 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Cyfanswm digwyddiadau llygredd (carthffosiaeth)

Yn 2024, gwelodd Dŵr Cymru 132 o achosion llygredd carthffosiaeth Categori 1 i 3. Cafodd 127 ohonynt effaith amgylcheddol fach (Categori 3), tra bod pump ohonynt wedi cael effaith amgylcheddol arwyddocaol (Categori 2). Mae'n fater o bryder bod y nifer hwn yn parhau i gynyddu o flwyddyn i flwyddyn.

Mae'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol yn normaleiddio nifer y digwyddiadau yn ôl cyfanswm hyd y carthffosydd y mae'r cwmni'n gyfrifol amdanynt (36,249 cilometr), sy'n golygu bod Dŵr Cymru wedi cyflawni sgôr oren ar gyfer y metrig hwn:

| Metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol | Uned fesur | Beth y mae'r metrig hwn yn ei olygu | Canlyniad 2024 (statws metrig) |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm digwyddiadau llygredd (carthffosiaeth)** | Digwyddiadau Categori 1–3 fesul 10,000 cilometr o garthffosydd | Faint o ddigwyddiadau llygredd carthffosiaeth a ddigwyddodd, o fewn Categori 1–3, yn ôl hyd y carthffosydd | 36 (Oren) |




Fel y mae’r graff uchod yn ei ddangos, ers 2021, sef dechrau cyfnod yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol presennol, bu cynnydd o 60% mewn digwyddiadau carthffosiaeth.


Rydym yn disgwyl i Dŵr Cymru gymryd cyfrifoldeb am y cynnydd hwn yn nifer y digwyddiadau llygredd, a gwneud ymdrech ar y cyd i ganolbwyntio eu mentrau i wrthdroi’r duedd hon sy’n dangos dirywiad. Rydym yn disgwyl i Dŵr Cymru ddefnyddio arferion gorau o bob rhan o’r sector i leihau llygredd yn barhaus a gweithio tuag at y nod hirdymor sef dim digwyddiadau o gwbl.

## Metrig 2 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Digwyddiadau llygredd difrifol (Categori 1 a 2 o asedau carthffosiaeth a chyflenwad dŵr)

Mae’r metrig hwn yn edrych ar nifer y digwyddiadau llygredd difrifol. Fel y dangosir yn y graff isod, roedd chwe digwyddiad difrifol yn 2024 a gafodd effaith amgylcheddol arwyddocaol (Categori 2).

| Metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol | Uned fesur | Beth y mae’r metrig hwn yn ei olygu | Canlyniad 2024 (statws metrig) |
|---|---|---|---|
| **Digwyddiadau llygredd difrifol (asedau carthffosiaeth a chyflenwad dŵr)** | Cyfanswm nifer y digwyddiadau (Categori 1–2) | Cyfanswm nifer yr achosion difrifol o lygredd carthffosiaeth ac o ran y cyflenwad dŵr a ddigwyddodd (Categori 1–2) | 6 (Coch) |

Yn 2024, dosbarthwyd pob un o'r chwe digwyddiad llygredd difrifol fel Categori 2. Mae hyn un yn llai nag yn 2023, ond yn dal i fod ddwywaith y trothwy o dri digwyddiad, sy'n sbarduno sgôr coch o ran perfformiad. Roedd y digwyddiadau'n gysylltiedig ag amrywiaeth o asedau, gan gynnwys gorsafoedd pwmpio carthffosiaeth, pibellau ymgodol, gweithfeydd trin dŵr gwastraff, a phibellau'r prif gyflenwad dŵr sy'n dosbarthu dŵr.




Rydym yn disgwyl i Dŵr Cymru bwyso am welliant yn y maes hwn a gweithio'n gyflym tuag at leihau digwyddiadau difrifol o asedau carthffosiaeth a chyflenwad dŵr, gan ddefnyddio arfer gorau'r diwydiant a gweithredu'n gyflym ar ganfyddiadau o'r dadansoddiad o wraidd y broblem ar ôl digwyddiad.

## Metrig 3 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Digwyddiadau hunan-adrodd

Rydym yn disgwyl i gwmnïau dŵr hunan-adrodd am o leiaf 80% o ddigwyddiadau llygredd. O dan fetrigau llymach yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol, mae cyflawni statws gwyrdd bellach yn gofyn nid yn unig am ganran o 80% o ran hunan-adrodd cyffredinol, ond hefyd am ganran o 90% o ran hunan-adrodd mewn gorsafoedd pwmpio a gweithfeydd trin dŵr gwastraff.


Mae hunan-adrodd yn dangos bod cwmni:
- yn deall ei asedau a'i rwydweithiau
- yn defnyddio telemetreg ac offer eraill i ragweld a chanfod digwyddiadau
- yn nodi lleoliadau a mathau o asedau risg uchel
- yn ymateb yn gyflym i leihau'r effaith amgylcheddol

Yn 2024, parhaodd Dŵr Cymru ar statws oren, gyda chyfradd hunan-adrodd gyffredinol o 74%, gwelliant o 6% ers 2022, ond yn dal i fod islaw'r trothwy o 80%. Gwelwyd y duedd gynyddol hon yn Lloegr hefyd, gyda chynnydd o 30% ers 2023. Er bod y cynnydd hwn yn

galonogol, mae perfformiad wedi sefydlogi ac yn parhau ar yr un lefel ag yr oedd ddegawd yn ôl.

Yn gadarnhaol, cynyddodd hunan-adrodd mewn gorsafoedd pwmpio a gweithfeydd trin dŵr gwastraff 17% yn y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, roedd 12 digwyddiad o'r mathau hyn o asedau dal heb hunan-adrodd, er gwaethaf presenoldeb systemau telemetreg. Mae angen gwelliant pellach i gyrraedd y targed o 90% yn 2025.

Rydym yn annog Dŵr Cymru i archwilio mentrau a thechnolegau arloesol ar draws y diwydiant i gryfhau hunan-adrodd, yn enwedig mewn gorsafoedd pwmpio a gweithfeydd trin dŵr gwastraff, ac i gefnogi dychwelyd i statws gwyrdd.




## Cydymffurfio â'r drwydded gollwng dŵr

Rydym ni, ac Asiantaeth yr Amgylchedd, yn dyroddi trwyddedau ar gyfer gollyngiadau dŵr, gan gynnwys gollyngiadau wedi'u trin o weithfeydd trin dŵr gwastraff a gweithfeydd trin dŵr. Mae'r trwyddedau yn gofyn i'r gollyngiadau fodloni meini prawf penodol er mwyn sicrhau nad yw'r amgylchedd dŵr yn dirywio. Mae cwmnïau dŵr yn hunan-fonitro eu gollyngiadau ac mae'n ofynnol iddynt ddarparu data ar ein cyfer yr ydym yn ei asesu am gydymffurfedd. Mae'r ddau reoleiddiwr wedi cynyddu eu gweithgareddau asesu cydymffurfedd, gan gynnwys arolygiadau ac archwiliadau o safleoedd, ac rydym yn disgwyl y cydymffurfir â phob amod o'r drwydded.

Mae'r ddau reoleiddiwr yn defnyddio'r categorïau diffyg cydymffurfio canlynol (Categori 1–4) pan fyddwn yn asesu cydymffurfedd ag amodau trwydded:

- **Categori 1 – Sylweddol:** Posibilrwydd o gael effaith fawr, ddifrifol, barhaus a/neu helaeth ar yr amgylchedd, pobl, a/neu eiddo.

- **Categori 2 – Arwyddocaol:** Posibilrwydd o gael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd, pobl, a/neu eiddo.
- **Categori 3 – Bach:** Posibilrwydd o gael ychydig iawn o effaith ar yr amgylchedd, pobl, a/neu eiddo.
- **Categori 4 – Dim effaith:** Achos o ddiffyg cydymffurfio ar safle rheoledig lle nad oes modd rhagweld y bydd yn cael unrhyw effaith ar yr amgylchedd, pobl, a/neu eiddo.


Pan fyddwn yn categoreiddio achosion o ddiffyg cydymffurfio, rhaid inni ystyried yr effaith bosibl yn seiliedig ar yr hyn y gellir ei ragweld yn rhesymol. Mae pob achos o ddiffyg cydymffurfio yn cael ei gofnodi ar Adroddiad Asesu Cydymffurfedd a'i gyhoeddi i ddeiliad y drwydded. Pan fo angen, gallwn osod camau gweithredu sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y drwydded sicrhau bod y safle'n cydymffurfio â'r drwydded eto, ac yn ystyried ein hopsiynau o ran gorfodi.

## Metrig 4 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Cydymffurfio â thrwyddedau gollwng

Yn 2024, cyflawnodd Dŵr Cymru statws oren ar gyfer y metrig hwn, gan gydymffurfio â'r terfynau ansawdd dŵr ar ei drwyddedau rhifol ar gyfer gweithfeydd trin dŵr gwastraff a gweithfeydd trin dŵr 98.7% o'r amser. Mae hyn yn welliant o gymharu â'r llynedd pan gyflawnon nhw statws coch gyda chanran gydymffurfio o 98.0%. Mae'r graff isod yn dangos, o'r 584 o safleoedd y mae Dŵr Cymru yn eu gweithredu, fod yna pump o weithfeydd trin dŵr gwastraff nad oeddent yn cydymffurfio, a thri, allan o 39, o weithfeydd trin dŵr nad oeddent yn cydymffurfio.

| Metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol | Uned fesur | Beth y mae'r metrig hwn yn ei olygu | Canlyniad 2024 (statws metrig) |
|---|---|---|---|
| **Cydymffurfio â thrwydded ollwng (gweithfeydd trin dŵr gwastraff a gweithfeydd trin dŵr)** | % | Canran y gweithfeydd trin dŵr gwastraff a'r gweithfeydd trin dŵr sy'n cydymffurfio â'r terfynau rhifol o ran eu gollyngiadau | 98.7 (Oren) |

Rydym yn disgwyl i Dŵr Cymru chwilio am gyfleoedd i fonitro a nodi'n rhagweithiol gweithfeydd trin dŵr gwastraff a gweithfeydd trin dŵr a allai fod yn gostwng o ran perfformiad yn ystod y flwyddyn, gyda'r nod o gydymffurfio 100% â'r metrig hwn. Er nad yw Dŵr Cymru wedi cyflawni 100% ar unrhyw adeg, mae cwmnïau eraill yn y sector wedi cyflawni'r targed hwn.




| | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y gweithfeydd trin dŵr lle cadarnhawyd bod un neu fwy o ollyngiadau yn methu mewn blwyddyn galendr | 10 | 3 | 10 | 10 | 5 | 0 | 3 | 3 | 4 | 3 |
| Nifer y gweithfeydd trin dŵr gwastraff lle cadarnhawyd bod un neu fwy o ollyngiadau yn methu mewn blwyddyn galendr | 8 | 3 | 10 | 2 | 6 | 2 | 7 | 6 | 8 | 5 |
| Nifer y gweithfeydd trin dŵr lle cadarnhawyd bod un neu fwy o ollyngiadau yn methu mewn blwyddyn galendr | 97.1 | 99.0 | 96.7 | 98.0 | 98.2 | 99.7 | 98.3 | 98.5 | 98.0 | 98.7 |

## Metrig 5 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Metrig defnyddio a gwaredu slwtsh mewn ffordd foddhaol

| Metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol | Uned fesur | Beth y mae'r metrig hwn yn ei olygu | Canlyniad 2024 (statws metrig) |
|---|---|---|---|
| **Metrig defnyddio a gwaredu slwtsh mewn ffordd foddhaol** | **%** | A ydyw deddfwriaeth berthnasol sy'n ymwneud â storio, ailgylchu, a/neu waredu slwtsh carthion yn cael ei chydymffurfio â hi | 100% (Gwyrdd) |

Mae'r metrig hwn yn edrych ar faint o slwtsh carthion (wedi'i fesur mewn tunelli o solidau sych) sy'n cael ei ddefnyddio neu ei waredu'n ddiogel. Fel y cwmni sy'n gyfrifol am y slwtsh, unwaith y bydd yn gadael eu safleoedd, rhaid i Dŵr Cymru adrodd faint sy'n cael ei drin mewn ffordd foddhaol.

Mae'r cwmni'n rheoli'r slwtsh y mae'n ei gynhyrchu, a slwtsh a geir o ffynonellau eraill. Er mwyn cael ei ystyried yn foddhaol, rhaid i'r defnydd neu'r gwaredu gydymffurfio â'r canlynol:

- Rheoliadau Slwtsh (Defnydd mewn Amaethyddiaeth)

- Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (2010) – sy’n cwmpasu ailgylchu i dir a gwaredu o dan esemptiadau penodol
- Matrics slwtsh diogel

Disgwylir i gwmnïau dŵr gyflawni o leiaf 98.2% o ddefnydd neu waredu boddhaol.

Yn 2024, adroddodd Dŵr Cymru gydymffurfedd o 100%. O’r 34,426 tunnell o solidau sych o slwtsh boddhaol a anfonwyd:

- defnyddiwyd 34,420 tunnell o solidau sych ar dir amaethyddol
- defnyddiwyd chwe thunnell o solidau sych ar gyfer adfer tir (at ddibenion heblaw amaethyddiaeth)
- cyfanswm yr arwynebedd tir a ddefnyddiwyd ar gyfer amaethyddiaeth oedd 6,359 hectar

Gellir dadansoddi’r ffigurau fesul gwlad:

Yng Nghymru:
- defnyddiwyd 30,414 tunnell o solidau sych ar dir amaethyddol
- anfonwyd 96 tunnell o solidau sych arall at gwmni dŵr arall i’w trin

Yn Lloegr:
- defnyddiwyd 4,012 tunnell o solidau sych, gan gynnwys chwe thunnell o solidau sych ar gyfer adfer tir yng Nghernyw

## Metrig 6 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Cyflawni Cynllun Rheoli Asedau’r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol

Mae’r metrig hwn yn edrych ar sut mae Dŵr Cymru wedi cyflawni yn erbyn ei Gynllun Rheoli Asedau ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025. Mae’n edrych ar ganran y cynlluniau a gyflawnwyd o’i gymharu â’r cynlluniau cronnus a gynlluniwyd ar gyfer y Cynllun Rheoli Asedau pum mlynedd cyffredinol ar gyfer 2020–2025.

| Metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol | Uned fesur | Beth y mae’r metrig hwn yn ei olygu | Canlyniad 2024 (statws metrig) |
|---|---|---|---|
| **Cyflawni Cynllun Rheoli Asedau’r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol** | **% y gwaith cyflawni arfaethedig** | A ydyw Cynllun Rheoli Asedau’r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol yn cael ei gyflawni fel y bwriadwyd | 100 (Gwyrdd) |

Yn 2024–2025, cyflawnodd Dŵr Cymru 306 o gynlluniau fel y cynlluniwyd – 25 cynllun gwella, 5 cynllun ymchwilio, a 276 cynllun monitro. Ar ôl y newidiadau y cytunwyd arnynt, cyfanswm cronnus cynlluniau Cynllun Rheoli Asedau y Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol a gwblhawyd hyd yma yw 416 (gan gynnwys 406 o ymchwiliadau i ymchwiliadau lleihau amlder gollyngiadau Rheoliadau Trin Dŵr Gwastraff Trefol ar orlifoedd storm). Bydd y gwelliannau a gyflawnwyd gan y rhaglen yn golygu bod asedau’n cyflawni safonau uwch ac yn cyflenwi gwelliannau ansawdd dŵr.

Yn Lloegr, cyflawnodd Dŵr Cymru 23 o gamau gweithredu ym mlwyddyn 5 y Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol Diwydiant Dŵr, ac nid oedd unrhyw gam heb ei gyflawni.

Gan edrych ymlaen at Gynllun Rheoli Asedau 8, 2025–2030, mae Dŵr Cymru wedi ymrwymo i welliannau i'r Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol gwerth £1.6 biliwn yng Nghymru. Mae 199 o gynlluniau wedi'u cynllunio yn Lloegr. Byddwn yn parhau i weithio gyda Dŵr Cymru i sicrhau bod rhaglen Cynllun Rheoli Asedau 8 yn cael ei chyflawni.

Mae rhagor o wybodaeth am y buddsoddiad arfaethedig gan y cwmni dŵr yng Nghymru i'w gael yma: Cyfoeth Naturiol Cymru / BETA: Porth Gwybodaeth Amgylcheddol Cymru.

## Metrig 7 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Y Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw

Mae metrig y Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw yn mesur sut mae'r cydbwysedd gwirioneddol rhwng y cyflenwad a'r galw wedi perfformio o'i gymharu â'r hyn a nodir yng nghynllun rheoli adnoddau dŵr cwmni dŵr. Disgwyliwn i gwmnïau gael sgôr o 100.

Yn 2024–2025, cafodd Dŵr Cymru sgôr o 99 ar y Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw. Parhaodd y metrig hwn yn oren am yr ail flwyddyn yn olynol. Roedd y sgôr hon oherwydd bod y cwmni wedi nodi diffyg bach mewn un parth adnoddau dŵr (canol a de Ceredigion) eto. Mae hyn yn golygu bod y parth hwn mewn mwy o berygl o fod angen cyfyngiadau ar gwsmeriaid pe bai'r ardal honno o Gymru wedi profi amodau sychder yn 2024–2025. Dywedodd y cwmni nad oedd ganddo risg cyflenwad dŵr gwirioneddol yn ystod y flwyddyn. Rydym yn disgwyl i'r cwmni gynyddu ei ymdrechion i reoli gollyngiadau ac effeithlonrwydd dŵr er mwyn lleihau'r galw am ddŵr, er mwyn cynnal cyflenwad dŵr diogel ym mhob parth eleni, a chyflawni sgôr o 100 ar gyfer 2025–2026.

| Metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol | Uned fesur | Beth y mae'r metrig hwn yn ei olygu | Canlyniad 2024 (statws metrig) |
|---|---|---|---|
| **Y Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw** | Sgôr y Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw, uchafswm 100 | Sut mae'r cydbwysedd gwirioneddol rhwng y cyflenwad a'r galw wedi perfformio o'i gymharu â'r hyn a nodir yn ei gynllun rheoli adnoddau dŵr | 99 (Oren) |

# Rhan 2: Perfformiad amgylcheddol ehangach Dŵr Cymru

Mae saith metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol a nodir yn Rhan 1 yn cynrychioli is-set graidd o berfformiad amgylcheddol. Fodd bynnag, mae ein gwaith monitro, adrodd, a rheoleiddio mewn perthynas â gweithgareddau Dŵr Cymru yn ymestyn y tu hwnt i'r metrigau hyn. Mae Rhan 2 o'r adroddiad hwn yn ymdrin â meysydd ychwanegol, y mae rhai ohonynt yn gysylltiedig yn agos â mesurau Asesiad Perfformiad Amgylcheddol, **megis digwyddiadau a chydymffurfio â thrwyddedau, tra bod eraill yn adlewyrchu agweddau ehangach ar oruchwyliaeth amgylcheddol.**


## Digwyddiadau o asedau cyflenwi dŵr

Rydym yn monitro digwyddiadau llygredd o asedau sy'n ymwneud â chyflenwi dŵr yfed. Nid yw'r niferoedd wedi'u cynnwys yn metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol uchod gan fod hyn ar gyfer llygredd sy'n gysylltiedig â charthffosiaeth yn unig.

Mae digwyddiadau cyflenwi dŵr yn agwedd bwysig ar berfformiad amgylcheddol, gan eu bod yn aml yn cynnwys gollyngiadau dŵr yfed wedi'i drin yn rhannol neu wedi'i drin yn llawn o weithfeydd trin dŵr neu systemau dosbarthu. Gall gollyngiadau o'r fath achosi llygredd oherwydd presenoldeb cemegion megis clorin, alwminiwm neu haearn, a gallant fynd i mewn i gyrsiau dŵr ar gyflymder uchel, gan darfu ar waddodion a chyflwyno silt.

Yn 2024, bu 23 o ddigwyddiadau llygredd o asedau cyflenwi dŵr. O'r rhain, dosbarthwyd 22 fel Categori 3, ac roedd un yn ddifrifol (Categori 2).

Dangosodd perfformiad digwyddiadau cyflenwi dŵr welliant bach yn 2024 o'i gymharu â 2023, yn dilyn uchafbwynt yn ystod 2020–2021. Rydym yn disgwyl i Dŵr Cymru adeiladu ar y cynnydd hwn drwy leihau digwyddiadau o asedau cyflenwi dŵr ymhellach, gyda phwyslais penodol ar sicrhau nad oes unrhyw ddigwyddiadau llygredd difrifol.




| | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Uchel - Sylweddol (Categori 1) | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Uchel - Arwyddocaol (Categori 2) | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 2 | 2 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| Isel (Categori 3) | 4 | 0 | 6 | 11 | 20 | 26 | 63 | 78 | 45 | 25 | 22 |

## Cydymffurfio ag amodau disgrifiadol trwyddedau ar ansawdd dŵr

Yn ogystal â metrigau'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol, mae'n bwysig ystyried tueddiadau o ran cydymffurfio ag amodau trwydded disgrifiadol mewn gweithfeydd trin dŵr gwastraff a gweithfeydd trin dŵr. Mae'r amodau hyn yn cwmpasu agweddau anrhifol megis cynnal a chadw safleoedd, rheolaeth weithredol, a rhwymedigaethau o ran adrodd. Maent yn hanfodol i sicrhau bod safleoedd yn gweithredu'n gyfrifol ac yn unol â disgwyliadau amgylcheddol.

Rydym yn disgwyl gweld gwelliannau o flwyddyn i flwyddyn o ran perfformiad, gyda'r nod o gyflawni cydymffurfedd lawn (100%) ar draws pob safle trwyddedig. Mae'r tabl isod yn dangos canran y safleoedd a wnaeth gydymffurfio â'u hamodau disgrifiadol, a nifer y safleoedd heb gydymffurfio rhwng 2020 a 2024:

| Blwyddyn | Canran yn cydymffurfio | Safleoedd heb gydymffurfio |
|---|---|---|
| **2020** | 63% | 317 |
| **2021** | 87% | 112 |
| **2022** | 91% | 74 |
| **2023** | 87% | 110 |
| **2024** | 85% | 127 |

Gwellodd cydymffurfedd ag amodau trwydded disgrifiadol yn sylweddol rhwng 2020 a 2022, gan godi o 63% i 91%. Fodd bynnag, nid yw'r cynnydd hwn wedi'i gynnal, ac roedd

cydymffurfedd wedi gostwng i 87% yn 2023 ac 85% yn 2024. Er bod perfformiad yn parhau i fod yn well nag yn 2020, mae'r dirywiad diweddar islaw'r disgwyliadau. Rydym yn disgwyl i'r duedd ar i lawr hon gael ei gwrthdroi yn 2025, gyda Dŵr Cymru yn cymryd camau i gydymffurfio'n llawn.

O'r 127 o safleoedd nad oeddent yn cydymffurfio yn 2024, roedd y rhan fwyaf o'r achosion o beidio â chydymffurfio yn ymwneud â monitro, adrodd, a hysbysu o dan y rhaglenni hunan-fonitro gan weithredwyr a dŵr gwastraff trefol. Roedd y rhain yn cynnwys saith achos o ddiffyg cydymffurfio Categori 1 (sylweddol) a 27 achos o ddiffyg cydymffurfio Categori 2 (arwyddocaol), ochr yn ochr â nifer fwy o faterion Categori 3–4. Ystyrir bod achosion Categori 1–2 o ddiffyg cydymffurfio yn arwyddocaol, ac mae angen sylw brys arnynt.

Er mwyn gwella cydymffurfedd ag amodau disgrifiadol, rydym yn disgwyl i'r cwmni wneud y canlynol:

- Cymryd camau cyflym a chadarnhaol i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol diffyg cydymffurfio yn 2025
- Gwella perfformiad flwyddyn ar ôl blwyddyn, gan anelu at gydymffurfio 100%
- Dileu pob achos Categori 1–2 o ddiffyg cydymffurfio oherwydd eu potensial i gael effaith amgylcheddol ddifrifol.

## Cydymffurfio ag amodau llif mewn gweithfeydd trin dŵr gwastraff

### Cydymffurfio ag amodau llif tywydd sych

Llif tywydd sych yw cyfaint dyddiol cyfartalog y dŵr gwastraff sy'n mynd i mewn i waith trin yn ystod cyfnodau sych, pan nad oes glawiad. Mae'n adlewyrchu llifoedd arferol o aelwydydd a busnesau. Mae llif tywydd sych yn bwysig ar gyfer cydymffurfio oherwydd bod llawer o drwyddedau gollwng yn seiliedig ar y lefel hon o lif. Os yw'r llif yn fwy na'r llif tywydd sych a ganiateir yn rheolaidd, gall fod yna arwydd o broblemau megis ymdreiddiad neu orlwytho, a all effeithio ar berfformiad triniaeth ac arwain at niwed amgylcheddol.

Darparodd Dŵr Cymru ddata ynghylch llif tywydd sych yn unol â gofynion ei drwydded. Cafodd 42 o weithfeydd trin dŵr gwastraff yng Nghymru, a thri yn Lloegr, broblemau yn ymwneud â data yn 2023. Roedd gan 35 o safleoedd ddata ar goll neu ddata amheus yng Nghymru yn 2024 ac un yn Lloegr.

Aeth 24 o weithfeydd trin dŵr gwastraff yng Nghymru, a phump yn Lloegr, y tu hwnt i derfynau eu trwydded llif tywydd sych yn ystod 2023 pan oedd y llif tywydd sych Q90 a fesurwyd yn fwy na'r terfyn llif a ganiateir. Mae hyn yn cynnwys achosion o fynd y tu hwnt i'r terfynau a adroddwyd yn flaenorol, ac achosion o fynd y tu hwnt i'r terfynau am y tro cyntaf. Yn 2024 roedd nifer yr achosion o fod y tu hwnt i'r safonau wedi cynyddu'n sylweddol i 54 o safleoedd yng Nghymru a 12 safle yn Lloegr. Mae'n ofynnol i Dŵr Cymru

gynnal ymchwiliadau ac adrodd am y rheswm dros fynd y tu hwnt i'r terfyn i reoleiddiwr perthnasol, a phan fo'n briodol, cwblhau camau unioni o fewn amserlen y cytunwyd arni.

### Cydymffurfio â llif trin llawn

Llif trin llawn yw'r gyfradd llif uchaf y mae gwaith trin wedi'i gynllunio i'w drin yn llawn cyn i lifoedd gormodol gael eu dargyfeirio, fel arfer yn ystod cyfnodau o law trwm. Mae'n sicrhau bod dŵr gwastraff yn cael ei drin yn briodol cyn cael ei ollwng i'r amgylchedd. Mae cydymffurfio â llif trin llawn yn bwysig oherwydd ei fod yn helpu i atal carthion heb eu trin neu wedi'u trin yn rhannol rhag mynd i mewn i'r amgylchedd dŵr, gan ddiogelu ansawdd dŵr ac iechyd y cyhoedd.

Yn ystod 2023, yng Nghymru adroddwyd bod 156 o safleoedd yn cael eu hymchwilio iddynt gan Dŵr Cymru oherwydd ymholiadau ynghylch eu terfynau llif trin llawn a ganiateir. Cynyddwyd i 188 o safleoedd yn 2024. Rydym yn parhau i fod yn bryderus bod nifer y safleoedd wedi cynyddu'n sylweddol o'r 101 a adroddwyd yn 2022. Ystyrir bod y ffaith bod mwy o waith monitro wedi'i gynnal fel rhan o osodiadau W_U_MON3 a W_U_MON4 y Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol, ac amodau trwydded newydd cysylltiedig ar gyfer llif a basiwyd ymlaen, yn ffactor yn y nifer cynyddol o risgiau y gellir adrodd amdanynt. Rydym yn cydnabod bod cynnydd wedi'i wneud gyda'r rhaglen ymchwiliadau a gweithredu mesurau i ddelio â phroblemau mewn nifer o safleoedd. Rydym yn disgwyl i nifer y safleoedd sy'n cael eu hymchwilio lleihau yn y blynyddoedd i ddod.

### Cydymffurfio â'r cynllun ardystio monitro (MCERTS)

MCERTS yw ein cynllun ardystio monitro. Mae'n gosod safonau ar gyfer offer a systemau a ddefnyddir i fesur ac adrodd am ddata amgylcheddol, megis cyfraddau llif mewn gweithfeydd trin. Mae cydymffurfio â MCERTS yn sicrhau bod monitro llif yn gywir, yn ddibynadwy, ac yn gyson â gofynion rheoleiddio. Mae hyn yn ein helpu i asesu a ydyw safleoedd yn gweithredu o fewn y terfynau a ganiateir, ac yn gwarchod yr amgylchedd rhag niwed posibl.

Mae Dŵr Cymru wedi gwneud cynnydd gyda'i system rheoli mewnol ar gyfer ardystiad MCERTS, sef system sy'n archwilio ac yn ardystio addasrwydd a chywirdeb ei offer monitro llif yn annibynnol. Roedd eu holl safleoedd yng Nghymru yn cydymffurfio â gofynion ail-ardystio MCERTS yn 2023 a 2024.

## Gorlifoedd storm a ganiateir – Cymru yn unig

### Asesiad cydymffurfio â thrwyddedau

Drwy ein gwaith ymateb i ddigwyddiadau ac asesu cydymffurfedd â thrwyddedau, gwnaethom nodi achosion o beidio â chydymffurfio mewn gorlifoedd storm trwyddedig

(gorsafoedd pwmpio carthion, gorlifoedd carthffosiaeth gyfun, a gollyngiadau storm o weithfeydd trin dŵr gwastraff) am amryw o resymau.

Disgrifir y tri math mwyaf cyffredin o ddiffyg cydymffurfio yn 2024 isod.

- Nid oedd 228 o safleoedd yn cydymffurfio gan fod eu hoffer monitro hyd digwyddiadau wedi bod yn weithredol am lai na 90% o'r flwyddyn. Gwnaethom gofnodi 131 o safleoedd gyda diffyg cydymffurfio Categori 4, ac 79 o safleoedd gyda diffyg cydymffurfio Categori 3; rhoddwyd rhybudd i'r mwyafrif. Cafodd 26 o safleoedd eu cofnodi gyda diffyg cydymffurfio Categori 2. Mae camau gorfodi yn cael eu hystyried ar gyfer yr achosion mwy difrifol hyn o beidio â chydymffurfio.
- Cofnodwyd 23 o achosion o beidio â chydymffurfio ar gyfer gollyngiadau i'r amgylchedd a achoswyd gan rwystr yn rhwydwaith carthffosydd Dŵr Cymru. Cofnodwyd 22 fel achosion Categori 3 o beidio â chydymffurfio, ac un fel achos Categori 4 o ddiffyg cydymffurfio; rhoddwyd rhybudd i'r mwyafrif. Achosion cyffredin y rhwystrau oedd brasterau, olewau a seimiau, clytiau a chroniad o silt.
- Nodwyd 45 o achosion o ddiffyg cydymffurfio oherwydd bod seilwaith yn cael ei reoli'n wael. Pum achos o ddiffyg cydymffurfio Categori 4, 31 achos o ddiffyg cydymffurfio Categori 3, a naw achos o ddiffyg cydymffurfio Categori 2. Mae'r problemau a nodwyd yn cynnwys storfa stormydd annigonol sy'n achosi llifogydd ar y safle a gollyngiadau storm cynamserol, elifion storm heb gael eu dychwelyd i'w trin pan fydd y capasiti'n caniatáu, pympiau aerglo a chamweithrediad sgrin y fynedfa.

## Monitro hyd digwyddiadau

Mae Dŵr Cymru wedi gosod dyfeisiau monitro hyd digwyddiadau, i fonitro nifer a hyd gollyngiadau, ar y rhan fwyaf o'r gorlifoedd storm a ganiateir yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod dyfeisiau monitro hyd digwyddiadau wedi'u gosod ar yr asedau canlynol:

- Gorlifoedd storm ar y rhwydwaith carthffosydd (gorlifoedd carthffosiaeth gyfun)
- Gorlifoedd storm o orsafoedd pwmpio
- Gorlifoedd storm mewn gweithfeydd trin dŵr gwastraff

Yn yr adran hon, rydym yn rhannu data ar orlifoedd storm a ganiateir yn unig. Ar gyfer gorlifoedd storm sy'n gweithredu heb drwydded ar hyn o bryd, mae gennym raglen waith ar y gweill i ddod â nhw o fewn ein fframwaith rheoleiddio, pan fo hynny'n briodol. Mae rhagor o wybodaeth am orlifoedd storm ar gael ar ein gwefan: Gorlifoedd storm ac Adroddiadau data gollyngiadau gorlifoedd stormydd.

Mae gan gyfnodau anarferol o wlyb y potensial i arwain at gynnydd yn amlder a hyd gollyngiadau, tra bod tywydd sych yn cael yr effaith groes. Rydym yn gweithio ar ddull cadarn i nodi pryd y mae gollyngiadau'n digwydd mewn cyfnod o dywydd sych a fydd yn caniatáu inni asesu perfformiad gorlifoedd storm yn well.

Gan ddefnyddio dadansoddiad yn seiliedig ar gyfartaledd glawiad hirdymor yng Nghymru (1991–2020), roedd 2024 yn flwyddyn gyfartalog o ran glawiad.

| Blwyddyn | Glawiad Cymru |
|---|---|
| 2021 | Blwyddyn gyfartalog |
| 2022 | Blwyddyn sych |
| 2023 | Blwyddyn wlyb |
| 2024 | Blwyddyn gyfartalog |

## Data dyfeisiau monitro hyd digwyddiadau yr adroddwyd amdanynt

Mae'r data a gyflwynir isod yn defnyddio crynodeb data dyfeisiau monitro hyd digwyddiadau 2024, a gyflwynwyd gan y cwmni dŵr yn ei ffurflen reoleiddio flynyddol i ni. Ni chyflwynir data cryno dyfeisiau monitro hyd digwyddiadau o orlifoedd storm a ganiateir yn Lloegr yn yr adroddiad hwn.

Rhestrodd Dŵr Cymru 2,067 o drwyddedau yn eu datganiad ar gyfer 2024. Gwnaethom barhau i gyhoeddi amrywiadau dyfeisiau monitro hyd digwyddiadau i drwyddedau gorlifoedd storm yn ystod 2024.

Yn dilyn cyflwyno data cryno dyfeisiau monitro hyd digwyddiadau blynyddol ym mis Chwefror 2025, fe'n hysbyswyd ni gan Dŵr Cymru am anghysondebau sylweddol yn y data. Cyflwynwyd ffurflen ddiwygiedig ym mis Mai 2025. Ar ôl ei hadolygu'n gofalus, rydym wedi derbyn yr ailgyflwyniad, a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

Rydym wedi pwysleisio pwysigrwydd cywirdeb data ac wedi gofyn am esboniad ysgrifenedig o'r camau y bydd y cwmni'n eu cymryd i atal hyn rhag digwydd eto. Mewn ymateb, mae Dŵr Cymru wedi nodi sawl maes i'w gwella ac wedi amlinellu mesurau arfaethedig i wella cyflawnrwydd a chywirdeb data mewn cyflwyniadau yn y dyfodol.

Yn 2024, roedd 279 (13.5%) o ddyfeisiau monitro hyd digwyddiadau y cwmni dŵr ar waith am lai na 90% o'r flwyddyn, sydd islaw'r safon y cytunwyd arni yn y diwydiant. Rydym yn disgwyl i'r cwmni dŵr wella gweithrediad dyfeisiau monitro hyd digwyddiadau fel bod pob dyfais yn gweithredu am o leiaf 90% o'r amser cyn gynted â phosibl. Rydym yn disgwyl i'r cwmni barhau i weithio i wella cyflawnrwydd a chywirdeb y data ar gyfer setiau data gorlifoedd storm.

## Nifer y gollyngiadau

Cyfrifir nifer y gorlifiadau o orlifoedd storm gan ddefnyddio'r fethodoleg cyfrif blociau 12/24. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn defnyddio'r dull hwn hefyd, felly mae cysondeb ar draws cwmnïau dŵr yng Nghymru a Lloegr wrth gyfrif gorlifiadau gorlifoedd storm.

Mae data gorlifoedd o 2,070 o orlifoedd storm a ganiateir gan Dŵr Cymru yn dweud wrthym bod:

- 1% (19) heb unrhyw ddata wedi'u darparu
- 7% (153) heb ollwng o gwbl
- 19% (402) wedi gollwng rhwng 1 a 9 o weithiau
- 27% (564) wedi gollwng rhwng 10 a 39 o weithiau
- 24% (626) wedi gollwng rhwng 40 a 99 o weithiau

- 30% (304) wedi gollwng rhwng 100 a 299 o weithiau
- Llai nag 1% (2) wedi gollwng mwy na 300 o weithiau

### Hyd y gollyngiadau

Mae data hyd y llifogydd storm a ganiateir gan Dŵr Cymru, sef 2,070, yn dweud wrthym bod:

- 1% (19) heb unrhyw ddata wedi'u darparu
- 7% (153) wedi gweld gollyngiadau yn para 0 awr
- 31% (652) wedi gweld gollyngiadau yn para am fwy na 0 awr ond yn llai na 50 awr
- 25% (525) wedi gweld gollyngiadau yn para am o leiaf 50 awr ond yn llai na 250 awr
- 12% (255) wedi gweld gollyngiadau yn para am o leiaf 250 awr ond yn llai na 500 awr
- 11% (222) wedi gweld gollyngiadau yn para am o leiaf 500 awr ond yn llai na 1,000 awr
- 12% (241) wedi gweld gollyngiadau yn para am o leiaf 1,000 awr ond yn llai na 5,000 awr
- Llai nag 1% (3) wedi gweld gollyngiadau yn para am fwy na 5,000 awr

# Adnoddau dŵr

## Digwyddiadau o weithgareddau adnoddau dŵr

Ar 29 Ebrill 2024, nodwyd darnau sych yn isafonydd Nant Glandulas i lawr yr afon o fannau lle y mae Dŵr Cymru yn tynnu dŵr ar gyfer cronfeydd dŵr Llanisien / Llys-faen. Gwelsom fod tua 500 metr o'r nant yn hollol sych, gyda llif yn weladwy i fyny'r afon, gan ddynodi bod dŵr wedi'i dynnu'n llawn mewn sawl man. Ailddechreuodd y llif erbyn 1 Mai 2024. Dosbarthwyd y digwyddiad hwn fel digwyddiad Categori 3 o ran effaith amgylcheddol wirioneddol.

Ar 3 Gorffennaf 2024, bu digwyddiad Categori 2 yng nghronfa ddŵr Llyn Celyn pan ostyngodd y llifoedd islaw lefel gydbwyso ofynnol yr haf am un awr a 45 munud. Y toriad hwn, a reoleiddir gan drwydded adnoddau dŵr, oedd y chweched digwyddiad tebyg ers 2020. Bydd peidio â gollwng digon o ddŵr dro ar ôl tro yn effeithio'n sylweddol ar boblogaethau pysgod yn afon Tryweryn, yn enwedig y silod mân a'r eogiaid ifanc, gydag effeithiau cronnus yn cael eu hystyried yn niweidiol i ecoleg yr afon.

Pan fydd digwyddiad ar safle sydd â thrwydded, rydym yn cynnal asesiad o gydymffurfio â'r amodau yn y drwydded. Mae ein gwaith cydymffurfio ar gyfer y digwyddiadau hyn wedi'i fanylu yn yr adran nesaf.

## Cydymffurfio â thrwyddedau adnoddau dŵr

Yn 2024, cynhaliwyd 11 o asesiadau cydymffurfio o drwyddedau adnoddau dŵr Dŵr Cymru. Canfuwyd bod naw trwydded yn cydymffurfio. Fodd bynnag, nododd dau asesiad (digwyddiadau yn Llanisien a chronfa ddŵr Llyn Celyn) achosion o dorri amodau trwydded.

Oherwydd y potensial am effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd, aseswyd y ddau ddigwyddiad fel rhai Categori 2 nad oeddent yn cydymffurfio ag amodau eu trwydded.

Cafodd Dŵr Cymru rybudd am y ddau ddigwyddiad, ochr yn ochr â gofyniad i gymryd camau unioni mewn adroddiad asesu cydymffurfedd.

## Cynlluniau sychder a chynlluniau rheoli adnoddau dŵr

Mae gan gwmnïau dŵr ddyletswydd i gynnal cyflenwadau dŵr yn eu hardal, heb niweidio'r amgylchedd nac effeithio ar anghenion defnyddwyr dŵr eraill. Mae gofyniad statudol ar gwmnïau dŵr i baratoi, cynnal a chyhoeddi cynlluniau rheoli adnoddau dŵr a chynlluniau sychder. Cyhoeddwyd y cynllun rheoli adnoddau dŵr diweddaraf yn 2024. Cyhoeddwyd y cynllun sychder drafft diweddaraf ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ar ddechrau 2025. Yn ddiweddar, cyhoeddodd y cwmni ei ddatganiad ymateb i'r sylwadau a gafodd yn ystod yr ymgynghoriad. Cyhoeddir y cynlluniau bob pum mlynedd. I gael yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â chynlluniau rheoli adnoddau dŵr Dŵr Cymru, gweler ei wefan:

- Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr 2024
- Cynllun Sychder Drafft 2025

Edrychwch hefyd ar ein tudalennau gwe am ragor o wybodaeth ar y pynciau hyn:

- Cynllunio adnoddau dŵr
- Sychder
- Canllawiau ar gynlluniau sychder

## Gollyngiadau a'r defnydd o ddŵr

Mae cwmnïau dŵr yn cyflwyno amrywiaeth eang o ddata i ni ac Ofwat, sy'n cynnwys cyfraddau gollyngiadau a'r defnydd o ddŵr. Canfu ymchwiliad gan Ofwat fod Dŵr Cymru wedi camarwain cwsmeriaid a rheoleiddwyr ynghylch ei berfformiad ar ollyngiadau a defnydd dŵr y pen (defnydd dŵr fesul unigolyn) dros gyfnod o bum mlynedd.

Anfonodd Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd ac Ofwat lythyr rheoleiddwyr ar y cyd at Dŵr Cymru ynghylch yr adolygiad blynyddol o'i gynllun rheoli adnoddau dynol ar gyfer 2023–2024, gan dynnu sylw at ein pryderon ynghylch perfformiad y cwmni o ran rheoli galw, yn enwedig ar gyfer gollyngiadau a allai effeithio ar ddiogelwch y cyflenwad a/neu beri risg i'r amgylchedd. Cyhoeddwyd y llythyr ar wefan Ofwat.

Roedd y llythyr yn nodi ein disgwyliadau i Dŵr Cymru gymryd camau ar unwaith i wella perfformiad ar y materion a godwyd ac i gynnal cyfarfodydd â Cyfoeth Naturiol Cymru, Ofwat ac Asiantaeth yr Amgylchedd i ddangos cynnydd o ran mynd i'r afael â'r materion hynny.

Mae defnyddio dŵr yn effeithlon a lleihau gollyngiadau yn angenrheidiol ar gyfer meithrin gwytnwch hinsawdd ar gyfer natur a phobl.

Dylai'r cyfraddau gollyngiadau diwygiedig a'r wybodaeth am ddefnydd dŵr ar gyfer 2024/2025 fod ar gael yn fuan yma: https://www.discoverwater.co.uk/cy/.

## Cydymffurfio â thrwyddedau gwastraff

Mae cwmnïau dŵr yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau sy'n gysylltiedig â gwastraff, gan gynnwys trin biowastraff, gweithrediadau tirlenwi, hylosgi bionwyon, llosgi slwtsh, a gweithredu gorsafoedd trosglwyddo. Ar gyfer gweithgareddau a ganiateir, rydym yn asesu cydymffurfedd yn erbyn amodau'r drwydded ac yn cofnodi unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio.

Yn 2024, cynhaliwyd chwe asesiad cydymffurfedd ar draws pedwar safle, gan nodi pum achos o dorri amodau trwydded. Dosbarthwyd pob un fel achos Categori 3 o beidio â chydymffurfio. Er bod hyn yn cynrychioli lefel is o risg amgylcheddol, rydym yn disgwyl i Dŵr Cymru gymryd camau i gydymffurfio'n llawn.

## Gorfodi

Mae ein polisi gorfodi a sancsiynau yn sicrhau bod troseddau amgylcheddol yn cael eu trin yn deg, yn gadarn, ac yn gymesur er mwyn atal niwed pellach. Mae camau gorfodi yn cael eu harwain gan ein *hopsiynau ymateb i droseddau*, sy'n cynnwys:

- cyngor ac arweiniad
- rhybuddion ffurfiol
- sancsiynau sifil
- erlyniad

Mae'r dewis o ymateb yn dibynnu ar ddifrifoldeb y drosedd, parodrwydd y troseddwr i gydymffurfio, a budd y cyhoedd.

Nod ein hymyriadau gorfodi yw:

- rhoi'r gorau i droseddau parhaus
- adfer niwed amgylcheddol
- atal toriadau yn y dyfodol
- hyrwyddo cydymffurfedd barhaus

Gellir datrys troseddau bach neu anfwriadol drwy addysg neu gamau gwirfoddol. Ystyrir erlyniad fel dewis olaf, a dim ond pan fydd dulliau gorfodi eraill wedi profi'n aneffeithiol neu pan fo'r drosedd yn arbennig o ddifrifol y caiff ei ddilyn. Gall ymchwiliadau cymhleth gymryd amser, ac yn aml caiff deilliannau eu hadrodd amdanynt yn y blynyddoedd dilynol.

### Camau gorfodi: crynodebau o achosion

**Dŵr Cymru – Afon Cynin, Sir Gaerfyrddin**
Yn 2024, cafodd Dŵr Cymru rybuddiad ffurfiol yn dilyn digwyddiad o lygredd yn effeithio ar afon Cynin. Cafodd carthffosiaeth ei rhyddhau o orsaf bwmpio heb drwydded amgylcheddol ar 14 a 15 Mawrth 2022 a 3 Mai 2022.

Mae'r camau gorfodi hyn yn adlewyrchu difrifoldeb diffyg cydymffurfio dro ar ôl tro, a phwysigrwydd amddiffyn cyrsiau dŵr rhag gollyngiadau heb awdurdod.

**Dŵr Cymru – Afon Cefni, Ynys Môn**

Ar 3 Mawrth 2022, gollyngodd diesel coch o gynhwysydd storio diffygiol, gan halogi tir cyfagos ac afon Cefni. Fel rhan o ymrwymiad gorfodi, rhoddodd Dŵr Cymru £15,000 i elusennau amgylcheddol lleol yn ardal Llangefni.

Mae'r cyfraniad gwirfoddol hwn yn cynorthwyo adferiad amgylcheddol dan arweiniad y gymuned ac yn adlewyrchu dull cydweithredol o orfodi.

**Dŵr Cymru – Afon Gwy, Swydd Henffordd**
Ar 7 Gorffennaf 2024, dygodd Asiantaeth yr Amgylchedd erlyniad yn erbyn Dŵr Cymru am dorri terfynau a ganiateir ar gyfer y galw biocemegol am ocsigen mewn elifion carthion wedi'u trin a ollyngir i afon Gwy. Digwyddodd y methiannau yng ngweithfeydd trin dŵr gwastraff Kingstone a Madley rhwng Awst 2020 a Mehefin 2021. Cafodd y cwmni ddirwy o £90,000.

Dirwy o £90,000 i Dŵr Cymru am lygru afon Gwy ger Henffordd | Tanysgrifiwch am Newyddion Dalgylch | Ymgysylltu ag Asiantaeth yr Amgylchedd

## Diogelwch cronfeydd dŵr

Mae Dŵr Cymru yn rheoli 134 o gyforgronfeydd dŵr mawr cofrestredig, ac mae 106 ohonynt wedi'u dynodi'n rhai 'risg uchel'. Cyforgronfeydd dŵr mawr yw cronfeydd dŵr risg uchel, a ddynodwyd gennym ni, lle credwn y gallai bywyd dynol fod mewn perygl pe bai argae yn methu, gan achosi dŵr i gael ei rhyddhau heb ei reoli.

Drwy gydol y flwyddyn, rydym yn monitro cydymffurfedd chwarterol yn erbyn dangosyddion diogelwch allweddol, gan gynnwys:

- cronfeydd dŵr heb beiriannydd adeiladu neu oruchwylio penodedig
- cronfeydd dŵr heb eu harchwilio o fewn yr amserlen ofynnol
- cronfeydd dŵr lle nad yw mesurau diogelwch a argymhellwyd wedi'u cwblhau o fewn yr amserlen a argymhellwyd gan y peiriannydd arolygu

Drwy gydol 2024, cyflawnodd Dŵr Cymru gydymffurfedd llawn (100%) bob chwarter ar gyfer penodi peirianwyr cronfeydd dŵr a chwblhau'r arolygiadau gofynnol. O ran mesurau diogelwch, roedd cydymffurfedd chwarterol yn parhau i fod heb gydymffurfio, gan arwain at gyfradd gydymffurfio chwarterol o 97.0%. Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd nifer y cronfeydd dŵr nad oeddent yn cydymffurfio wedi lleihau i dri, gyda chyfradd cydymffurfio gyffredinol o 97.8%.

Mae cydymffurfedd Dŵr Cymru yn uchel. Priodolir y diffyg cydymffurfio i raddau helaeth i brosiectau peirianneg ar raddfa fawr sy'n gymhleth oherwydd cyd-ddibyniaeth diogelwch cyflenwad dŵr cyhoeddus, gweithio cyfyngedig am resymau amgylcheddol, ystyriaethau yn ymwneud â chaniatâd cynllunio, a chapasiti adnoddau. Nid yw'r un o'r achosion o ddiffyg cydymffurfio yn awgrymu pryder uniongyrchol ynghylch diogelwch cronfeydd dŵr. Mae cynlluniau prosiect ar waith i fynd i'r afael â'r holl fesurau, ac mae'r gwaith o'u cyflawni'n parhau.

Mae Dŵr Cymru yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am gynnydd, ac yn tynnu ein sylw at unrhyw oedi wrth weithredu a'r rhesymau dros yr oedi hynny, cyn y

terfynau amser statudol. Mae mesurau ar waith i sicrhau diogelwch cronfeydd dŵr, a cheisir cyngor yn aml gan beiriannydd sifil cronfeydd dŵr cymwys annibynnol.

Nid yw Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cofnodi unrhyw achosion o Dŵr Cymru yn peidio â chydymffurfio â mesurau diogelwch cronfeydd dŵr yn 2024.

## Asesiad monitro gweithredwyr

Rydym yn cynnal yr archwiliadau hyn o drefniadau hunan-fonitro gweithredwyr i wirio bod cwmnïau dŵr a charthffosiaeth yn cyflawni'r monitro gofynnol yn unol â'r safonau monitro yn ein trwyddedau a thrwy MCERTS. Yr asesiad monitro gweithredwyr yw'r offeryn systematig a ddefnyddiwn i gynnal yr archwiliadau hyn er mwyn tynnu sylw at feysydd i'w gwella a hyrwyddo arfer gorau.

Nid oes amserlen sefydlog ar gyfer cynnal archwiliadau asesiad monitro gweithredwyr; rydym yn eu cynnal yn seiliedig ar ein hasesiad o risg a blaenoriaethau gweithredol. Ni wnaethom gynnal archwiliad asesiad monitro gweithredwyr ar gyfer Dŵr Cymru yn 2024. Er nad oes gennym un wedi'i drefnu ar gyfer 2025 ar hyn o bryd, rydym yn bwriadu cynnal archwiliad asesiad monitro gweithredwyr yn y dyfodol agos, yn amodol ar ein hadolygiad parhaus o flaenoriaethau.

# Camau rheoleiddio

Rydym wedi ymrwymo i sbarduno gwelliannau ym mherfformiad cwmnïau dŵr drwy fframwaith rheoleiddio cadarn ac esblygol. Mae ein camau gweithredu yn canolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol:

## 1. Cynlluniau Lleihau Digwyddiadau Llygredd – gofyniad cyfreithiol newydd

Mae'r Ddeddf Dŵr (Mesurau Arbennig) wedi mewnosod darpariaethau yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol yn ôl y gyfraith i bob cwmni dŵr gyhoeddi Cynlluniau Lleihau Digwyddiadau Llygredd ac adroddiadau gweithredu. Rhaid i Gynlluniau Lleihau Digwyddiadau Llygredd esbonio'n glir sut y bydd cwmnïau'n lleihau llygredd o'u holl asedau, gan gynnwys gorlifoedd storm. Bydd adroddiadau gweithredu yn adolygiad ôl-weithredol o ba mor llwyddiannus y gweithredwyd y mesurau lleihau digwyddiadau.

- Rydym wrthi'n datblygu canllawiau sy'n disgrifio'r cynnwys yr ydym yn ei ddisgwyl mewn Cynlluniau Lleihau Digwyddiadau Llygredd ac adroddiad gweithredu, i'w cyhoeddi erbyn diwedd 2025.
- Rhaid i Gynlluniau Lleihau Digwyddiadau Llygredd fod ar waith erbyn mis Ebrill 2026.
- Byddwn yn gwirio bod Cynlluniau Lleihau Digwyddiadau Llygredd wedi'u cyhoeddi ac yn adolygu eu cynnwys.

## 2. Cynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff

Rydym yn gweithio tuag at wneud Cynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff yn statudol yng Nghymru, gan eu hymgorffori mewn strategaethau cynllunio a buddsoddi hirdymor.

- Rhaid i Gynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff fod yn uchelgeisiol, yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn cyd-fynd â nodau hinsawdd ac amgylcheddol.
- Byddant yn cefnogi cynllunio strategol dros gyfnod o 25 mlynedd, gan fynd i'r afael â heriau megis twf poblogaeth, newid hinsawdd, a chydnerthedd seilwaith.
- Byddwn yn asesu Cynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â rheoliadau ac yn effeithiol.

## 3. Cyflawni buddsoddiad Cynllun Rheoli Asedau 8 a blaenoriaethau Adolygiad Prisiau 24

Mae'n ofynnol i gwmnïau dŵr gyflawni eu hymrwymiadau buddsoddi o dan Gynllun Rheoli Asedau 8 (2025–2030), yn unol â thargedau perfformiad a osodwyd drwy Adolygiad Prisiau 24, dan arweiniad Ofwat.

- Mae blaenoriaethau rheoleiddio yn cynnwys lleihau llygredd, gwella ansawdd dŵr, gwella gwytnwch hinsawdd, a darparu gwasanaethau gwell.
- Byddwn yn dwyn cwmnïau i gyfrif o ran cyflawni amserol a thryloyw, ac yn sicrhau bod buddsoddiadau'n arwain at welliannau amgylcheddol pendant.

## 4. Cynllun cydymffurfio â thrwyddedau a gwasanaeth rheoleiddio

Rydym yn cynyddu ein ffocws ar fonitro cydymffurfedd gollyngiadau a ganiateir drwy ein cynllun gwasanaeth rheoleiddio, gyda chymorth adnoddau gwell o 2025.

- Mae cryfhau cydymffurfedd â thrwyddedau yn hanfodol i atal digwyddiadau llygredd.
- Byddwn yn cynnal asesiadau mwy aml a thrylwyr i sicrhau bod cwmnïau'n bodloni amodau'r drwydded.

## 5. Asesiad Perfformiad Amgylcheddol (2026–2030)

Rydym yn gweithredu fframwaith Asesiad Perfformiad Amgylcheddol diwygiedig ar gyfer 2026–2030.

- Bydd hyn yn cynnwys metrigau ychwanegol i wella craffu ac atebolrwydd.
- Bydd perfformiad yn cael ei feincnodi i sbarduno gwelliant parhaus.

## 6. Ymateb i ddigwyddiadau yn seiliedig ar risg

Rydym yn newid i ddull sy'n seiliedig ar risg ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau llygredd.

- Bydd ymatebion yn cael eu llywio gan risg amgylcheddol a gwybodaeth, gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu cyfeirio lle mae angen ymyrraeth fwyaf.
- Ni fydd pob adroddiad yn cael camau gweithredu ar unwaith; efallai y bydd rhai yn cael eu datrys drwy weithgarwch rheoleiddio neu orfodi arferol.

## 7. Rheoleiddio cydweithredol a gwella'r sector

Rydym yn cydweithio'n agos ag Ofwat a phartneriaid eraill i sbarduno gwelliannau ledled y sector.

- Mae hyn yn cynnwys lleihau digwyddiadau llygredd a hyrwyddo arfer gorau ar draws y diwydiant.
- Byddwn yn parhau i ddwyn cwmnïau dŵr i gyfrif ar bob lefel, o weithrediadau rheng flaen i arweinyddiaeth uwch.

## 8. Strategaeth data a galluedd dadansoddol

Rydym yn gwella ein systemau data drwy ein platfform i gwsmeriaid a'n strategaeth technoleg gwybodaeth ar gyfer 2030.

- Rydym yn archwilio offer i wneud y mwyaf o alluedd dadansoddi data, gan gydweithio â rheoleiddwyr eraill i fabwysiadu arferion gorau.
- Bydd data gwell yn cynorthwyo'r gwaith o reoleiddio a monitro cydymffurfedd yn fwy effeithiol.

# Disgwyliadau perfformiad ar gyfer 2025

Wrth i ni ddechrau blwyddyn olaf cyfnod adrodd Asesiad Perfformiad Amgylcheddol 2021–2025, rydym yn disgwyl i Dŵr Cymru wneud cynnydd cadarnhaol ar draws pob un o saith metrig Asesiad Perfformiad Amgylcheddol, a gwrthdroi'r tueddiadau dirywiol a welwyd yn 2024. Bydd rhai metrigau'n tynhau ymhellach yn 2025 i sicrhau bod targedau'n parhau i fod yn heriol ac yn sbarduno perfformiad gwell.

Yn 2025, rydym yn disgwyl i Dŵr Cymru wneud y canlynol:

- Lleihau cyfanswm y digwyddiadau carthffosiaeth o flwyddyn i flwyddyn;
- Dileu pob digwyddiad llygredd difrifol (carthffosiaeth a chyflenwad dŵr);
- Cyflawni cydymffurfedd ansawdd dŵr rhifol o 100%;

- Gwella hunan-adrodd digwyddiadau llygredd, yn enwedig mewn gorsafoedd pwmpio a gweithfeydd trin dŵr gwastraff;
- Cynnal perfformiad boddhaol o ran defnyddio a gwaredu slwtsh;
- Cyflawni 100% o gynlluniau rheoli asedau y Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol;

Fel yr amlinellwyd yn Rhan 2 o'r adroddiad hwn, mae sawl maes ychwanegol lle y mae angen sylw i gryfhau perfformiad amgylcheddol cyffredinol. Yn 2025, rydym yn disgwyl i Dŵr Cymru wneud y canlynol:

- Lleihau digwyddiadau o asedau cyflenwi dŵr a gweithgareddau adnoddau dŵr;
- Cynyddu cydymffurfedd ag amodau disgrifiadol i 100%;
- Gwella cydymffurfedd llif ar draws safleoedd perthnasol;
- Lleihau gollyngiadau ar draws y rhwydwaith dosbarthu dŵr.

# Atodiad 1: Methodoleg asesu perfformiad

Adroddir ar berfformiad cwmnïau dŵr yn flynyddol ar sail blwyddyn galendr. Ers 2011, rydym wedi defnyddio'r un metrigau a dulliau Asesiad Perfformiad Amgylcheddol ag Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae'r aliniad hwn yn galluogi adrodd a meincnodi cyson ar berfformiad Dŵr Cymru yn erbyn y naw cwmni dŵr a charthffosiaeth mawr sy'n gweithredu yn Lloegr.

Er mwyn sicrhau cwmpas llawn, rydym yn cyfuno data perfformiad o Gymru â data a ddarperir gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer y rhan o ardal weithredu Dŵr Cymru sydd yn Lloegr. Felly mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno perfformiad ar gyfer Dŵr Cymru yn ei gyfanrwydd.

Mae'r metrigau hyn yn absoliwt yn hytrach na chymharol, sy'n golygu bod pob cwmni'n cael ei asesu yn erbyn safonau sefydlog. Felly, mae gan bob cwmni y cyfle i gyflawni statws pedair seren sy'n arwain y diwydiant.

Defnyddiwyd methodoleg yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol (fersiwn 12) ar gyfer asesu data 2024.

# Atodiad 2: Crynodeb o berfformiad 2015–2024 Dŵr Cymru yn yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol

Mae'r tabl isod yn crynhoi perfformiad metrig Asesiad Perfformiad Amgylcheddol Dŵr Cymru ers 2015.

| | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Digwyddiadau llygredd (carthffosiaeth)** Digwyddiadau Categori 1–3 fesul 10,000 cilometr o garthffosydd | 59 | 30 | 28 | 28 | 26 | 21 | 23 | 25 | 30 | 36 |
| **Digwyddiadau llygredd difrifol (asedau carthffosiaeth a chyflenwad dŵr)** Cyfanswm y digwyddiadau (Categori 1–2) | 1 | 0.6 | 0.3 | 0.8 | 0 | 0.3 | 3[1] | 5 | 7 | 6 |
| **Hunan-gofnodi digwyddiadau llygredd %** (% ar gyfer gorsafoedd pwmpio a gweithfeydd trin dŵr gwastraff yn unig) | 74 | 68 | 63 | 75 | 73 | 80 | 76 (61) | 69 (46) | 70 (65) | 74 (82) |
| **Cydymffurfio â thrwydded gollwng (gweithfeydd trin dŵr a gweithfeydd trin dŵr gwastraff) %** | 98.6 | 99 | 96.7 | 98 | 98.3 | 99.7 | 98.3 | 98.5 | 98.0 | 98.7 |
| **Defnyddio / gwaredu slwtsh yn foddhaol %** | 100 | 100 | 100 | N/A[2] | N/A | N/A | N/A | 100 | 99.84 | 100 |
| **Cyflawni Cynllun Rheoli Asedau'r Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol** % o'r cyflawniad a gynlluniwyd | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 |
| **Y Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw** | N/A | 100 | 98 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 99 | 99 |
| **Sgôr seren y cwmni** | 3-star | 3-star | 2-star | 3-star | 3-star | 4-star | 3-star | 2-star | 2-star | 2-star |

[1] O dan fetrigau llymach ac ehangach yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol yng nghyfnod pum mlynedd newydd yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol (2021–2025), mae'r metrig digwyddiadau llygredd difrifol bellach yn cynnwys digwyddiadau cyflenwad dŵr difrifol ac nid yw bellach wedi'i normaleiddio.

[2] Gwnaethom ohirio adrodd ar y metrig slwtsh ers 2018–2020 wrth inni adolygu sut yr ydym yn asesu ac yn adrodd ar berfformiad yn gyson ar draws y cwmnïau dŵr ar y gweithgaredd hwn yn y dyfodol. Ailsefydlwyd y metrig slwtsh fel metrig cysgodol ar gyfer blwyddyn ddata 2021, ac fel metrig llawn ar gyfer blwyddyn ddata 2022.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Allwedd: Statws metrig

| | |
|---|---|
| Gwyrdd | Perfformiad yn well na’r targed |
| Oren | Perfformiad islaw’r targed |
| Coch | Perfformiad ymhell o dan y targed |

Allwedd: Sgôr seren gyffredinol y cwmni

| | |
|---|---|
| Pedair seren | Cwmni sy’n arwain y diwydiant |
| Tair seren | Cwmni da |
| Dwy seren | Cwmni y mae angen ei wella |
| Un seren | Cwmni sy’n perfformio’n wael |